

Adeiledd a bondio cofalent

1 Pa rai o'r canlynol sydd â bondio cofalent fel arfer?


Rhowch gylch o amgylch y **ddau** ateb cywir.

(2 marc)

- A cyfansoddion o fetelau ac anfetelau
- B cyfansoddion o anfetelau yn unig
- C moleciwlau anfetelau
- D cymysgeddau o ddau fetel
- E metelau pur


2 Ffurfwedd electronau atom clorin yw 2, 8, 7.

(a) Cwblhewch y diagram dot a chroes ar gyfer moleciwl clorin. Dangoswch y plisg allanol o electronau'n unig.



(2 marc)

(b) Mae clorin yn adweithio ag ocsigen i ffurfio'r cyfansoddyn Cl_2O . Mae adeiledd Cl_2O yn cael ei ddangos yn y diagram.



Lluniadwch ddiagram dot a chroes ar gyfer moleciwl Cl_2O . Dangoswch y plisg allanol o electronau'n unig.

(3 marc)

- (c) i. Rhagfyngewch gyflwr (solid, hylif neu nwy) Cl_2O ar dymheredd ystafell (25 °C).

(1 marc)

- ii. Rhowch reswm dros eich ateb.

(3 marc)

- (d) Eglurwch pam mae'r polymer poly(chloroethen) yn solid ar dymheredd ystafell.

(3 marc)

- 3** Mae bondiau cofalent yn cael eu ffurfio pan fydd electronau'n cael eu rhannu.


- (a) Sawl electron sy'n cael eu rhannu mewn bond cofalent dwbl?

(1 marc)


- (b) Ffurwedd electronau atom ocsigen yw 2, 6. Ffurwedd electronig atom carbon yw 2, 4. Lluniadwch ddiagram dot a chroes i ddangos moleciwl carbon deuocsid, CO_2 . Dangoswch yr electronau allanol yn unig.

(2 marc)

- 4 Mae'r diagram yn dangos y diagram dot a chroes ar gyfer propanal.



- (a) Cwblhewch y diagram i ddangos y fformiwla graffig ar gyfer moleciwl propanal.



(2 marc)

- (b) Beth yw fformiwla foleciwlaidd propanal?

(1 marc)

- (c) Mae'r tabl yn dangos gwahanol ffyrdd o gynrychioli moleciwl amonia. Ychwanegwch dic (✓) a chroes (x) i ddisgrifio beth mae'r cynrychioliad yn ei ddangos.

Ydy'r cynrychioliad yn dangos:	NH_3			
y mathau o atomau yn y moleciwl?				
nifer pob math o atom?				
sut mae'r electronau'n cael eu rhannu?				
yr adeiledd 3-D?				

(4 marc)

- 5 Mae gan wahanol sylweddau cofalent wahanol adeileddau. Gallant fod yn foleciwlau syml, yn bolymerau neu fod ag adeileddau cofalent enfawr.

(a) Llenwch y tabl i ragfynegi adeileddau sylweddau X, Y a Z.

Sylwedd cofalent	Ymdoddbwynt /°C	Math o adeiledd
X	Tua 4000	
Y	-101.5	
Z	120–130	

(3 marc)

- (b) Enwch y math o atyniadau sy'n cael eu trechu pan fydd sylwedd cofalent moleciwlaidd syml yn ymdoddi.

(1 marc)

- (c) Eglurwch pam na all sylwedd moleciwlaidd syml ddargludo trydan.

(1 marc)

[Cyfanswm: 29 marc]



Pa gwestiwn/gwestiynau a gawsoch chi'n anghywir? Pam?

Beth fyddwch chi'n ei wneud y tro nesaf y gofynnir cwestiwn tebyg i chi?